Cyswllt Amgylchedd Cymru | Wales Environment Link

Mewn Partneriaeth â **Llywodraeth Cymru**
In Partnership with **Welsh Government**

Gweithdy amrywiaeth: Cydweithio'n agos ac ymgyrchu

Mynychwyr

Kit Stoner	Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod
Joe Nunez-Mino	Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod
Clare Dinham	Buglife
Llinos Humphreys	Coed Cadw
Claire Holmes	Cymdeithas Eryri
Jo Golley	Cadw Cymru'n Daclus
Maria Wilding	Llais y Goedwig
Zena Wilmott	Llais y Goedwig
Jayne Hunt	Llais y Goedwig
Rebecca Brough	Ramblers Cymru
Roger Thomas	Y Cyswllt
Liz Smith	Y Cyswllt
Rory Francis	Y Cyswllt
Karen Whitfield	Y Cyswllt
Susan Evans	Y Cyswllt
Llinos Price	Y Cyswllt

Arweiniwyd y sesiwn hon gan Ele Hicks, Rheolwr Polisi, Cyswllt ac Ymchwil Diverse Cymru.

Cychwynnodd Ele y sesiwn drwy drafod rhai o'r pethau allweddol i'w hystyried wrth gynllunio lleoliadau a gwasanaethau hygyrch (gweler y sleidiau cyfatebol.)

Yn y drafodaeth ddilynol cododd ystod o ystyriaethau gan fod y mynychwyr yn cymryd rhan mewn cymysgedd o waith project yn y maes a gwaith yn canolbwyntio mwy ar bolisi. Er hwylustod, rydw i wedi rhannu'r materion yn themâu, lle roedd hynny'n bosibl.

Prosesau a chynllunio ar gyfer lleoliadau, projectau a gwasanaethau cynhwysol

- Roedd gan aelodau ddiddordeb mewn dysgu mwy am Asesiadau Effaith Cydraddoldeb a sut i baratoi a defnyddio'r rhain; adnabuwyd hwn fel pwnc ar gyfer hyfforddiant pellach posibl.
- Yn ddiweddarach, trafodwyd monitro a gwerthuso cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiad hefyd fel pynciau hyfforddiant posibl a fyddai o gymorth yn y dyfodol.
- Trafododd aelodau ddarpariaeth mannau tawel ar eu safleoedd/mewn digwyddiadau. Mae Llais y Goedwig eisoes yn gwneud hyn gyda'u grwpiau ac yn sicrhau bod ymwelwyr yn cael gwybod bod man tawel ar gael a bod hyn yn cael ei wneud yn amlwg iddyn nhw. Gellir defnyddio mannau tawel i roi cyfle i bobl adlewyrchu a "chamu draw" a chael gofod/lleihau gorlwytho synhwyraidd os oes angen, yn ogystal â bod yn fan sy'n rhoi cyfle i bobl weddïo.
- Cafwyd sawl ymholiad ynglŷn â'r dull gorau o roi ymgysylltu ar waith ar gyfer projectau newydd a sut i gysylltu â chymunedau yn yr ardal honno.
- Argymhellodd Ele y gellid cychwyn drwy gysylltu â Chynghorau Gwirfoddoli Cymunedol (CGC) er mwyn adnabod pa brif grwpiau cymunedol sydd ar waith yn yr ardal y mae'r project neu'r safle yn canolbwyntio arni. Dylai Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (neu Gyngor Cenedlaethol Cyrff Gwirfoddol yn Lloegr) allu darparu'r wybodaeth hon ar lefel genedlaethol hefyd.
- Fel cam nesaf, mae ymgysylltu â chynrychiolwyr cymunedau'r ardal yn allweddol, i ddeall hoff ddulliau'r cymunedau hynny o ymgysylltu, pa fuddion ddaw iddyn nhw o'r project ac unrhyw hoff ddulliau o gyfathrebu neu leoliadau ar gyfer digwyddiadau neu rai y byddai'n well eu hosgoi wrth ymgymryd ag ymgysylltu cychwynnol neu ymarferion cwmpasu. Er nad yn ddiffiniol, dylai hyn osod sail dda ar gyfer cychwyn, a bydd hefyd yn gymorth i adnabod unrhyw rwystrau i ymgysylltu, ee yr angen am dreuliau, materion yn ymwneud â thrafnidiaeth, dehongli, y bydd angen eu hystyried a'u datrys.
- Mae creu ymddiriedaeth a pherthnasau gyda'ch cynulleidfa/cymunedau targed yn hynod o bwysig a dylid treulio amser ar hyn. Ni fydd yn digwydd dros nos.
- Mae tryloywder yn hynod o bwysig: os gwelir nad oes modd dileu rhwystr, rhaid cyfathrebu'r rhesymau dros hynny'n eglur a rhaid penodi amser am drafodaethau pellach rhag ofn yr awgrymir atebion eraill. Nid yw diffyg fforddiadwyedd ynddo ei hun o anghenraid yn rheswm digon

da ac mae'n debygol o beri rhwystredigaeth a diffyg ymddiriedaeth gan y gymuned.

- Wrth gydnabod y sefyllfa ariannu hynod dynn y mae'r rhan fwyaf o brojectau'n gorfod gweithio oddi mewn iddi, mae'n bwysig creu cyllideb hygyrchedd fel rhan o geisiadau ariannu i dalu am bethau a all godi, fel treuliau neu ddehongli.
- Cafwyd sicrwydd gan Ele na fyddai'n rhaid i brojectau amgylcheddol ymarferol ymgymryd â gweithrediadau a fyddai'n cyfaddawdu gofynion amgylcheddol y project i ddarparu hygyrchedd. Er enghraifft, efallai na fydd yn bosibl i bob rhan o bob safle byd natur fod yn llwyr hygyrch i bawb. Ond dylid gwneud pob ymdrech i ystyried sut all cymunedau gymryd rhan mewn agweddau gwahanol o'r project. Os na all ymwelwyr gydag anableddau gael mynediad i un rhan o'r safle, oes modd iddyn nhw gyrraedd rhan arall, neu a fyddai modd sicrhau agwedd ddigidol i'r project, er enghraifft?
- Mae monitro a gwerthuso dros hygyrchedd yn rhan bwysig o'r project a dylid cynllunio ar gyfer hyn ar gychwyn unrhyw broject neu ddigwyddiad.
- Trafododd y grŵp hefyd bwysigrwydd gofyn i bobl a oes ganddyn nhw unrhyw ofynion o ran hygyrchedd neu ddiet wrth eu gwahodd i unrhyw ddigwyddiad. Gallwch lunio hwn fel cwestiwn positif: "Oes gennych chi unrhyw ofynion … neu Beth yw eich gofynion?" Peidiwch â dweud "os oes gennych unrhyw anghenion, gadewch i ni wybod" oherwydd fe all hyn wneud i bobl deimlo eu bod yn drafferthus. Wrth drefnu lluniaeth amhriodol neu beidio â darparu lluniaeth fe all pobl deimlo eu bod yn cael eu cau allan ac fe all ymddangos yn anniolchgar, yn enwedig os yw pobl wedi teithio i ddigwyddiad.
- Mae rhestrau gwirio yn ddull defnyddiol o sicrhau bod pob gofyniad o ran hygyrchedd yn cael ei ystyried.

Cyfathrebu mewn print ac yn ddigidol

Trafododd y grŵp safonau ymarfer da ar gyfer cyfathrebu ysgrifenedig. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Defnyddio maint ffont o 14-pwynt o leiaf, er bod ystod ehangach o opsiynau ar gyfer deunyddiau electronaidd o'u defnyddio'n briodol. Fe

all gwefannau ail-feintio ffontiau wrth ddefnyddio darllenwyr sgrîn ac mae gan fformat Gair/PDF weithrediadau Zoom y gellir eu defnyddio. Fe all darparu fformat testun yn unig fod yn gymorth i'r sawl sydd â meddalwedd cynorthwyol. Gweler [gwefan Anabledd Dysgu Cymru] Learning Disability Wales website am enghraifft dda o sut y maen nhw wedi mynd i'r afael â hygyrchedd i'r we.

- Fe all fformatio megis italig, ffont trwm a geiriau wedi eu hysgrifennu mewn llythrennau mawr i gyd ei wneud yn anodd i bobl gyda dyslecsia neu namau gweledol ei ddarllen. Dylid tanlinellu uwch-gysylltau (hyperlinks) yn unig a defnyddio ffont trwm ar gyfer penawdau a theitlau yn unig, os nad yw'r ddogfen yn daflen neu'n boster nad yw'n llawn o destun.
- Ni ddylid unioni testun oherwydd fe all y gofod artiffisial rhwng geiriau unwaith eto beri problemau i'r sawl sydd â nam gweledol.
- Mae iaith eglur a syml yn allweddol – mae cyrsiau Cymraeg eglur ar gael i ddatblygu'r medrau hun, sy'n cynnwys defnyddio llais gweithredol a chwynnu geiriau nad oes eu hangen.
- Mae Gair Microsoft (Word) yn darparu ystadegau darllenadwyedd ac yn gwirio hygyrchedd yn gyffredinol. Mewn fersiynau diweddar o Gair/Word gwelir swyddogaethau o dan y tab "Adolygu". Gallwch wirio pa mor glir a chryno yw eich testun (o dan "Golygydd") ac ychwanegu disgrifiadau testun gwahanol o ddelweddau a ddefnyddid (wrth ddefnyddio "Gwirio Hygyrchedd"), fel bod darllenydd sgrîn yn gallu eu deall a'u disgrifio. Cofiwch bod modd cwsmereiddio arfau golygyddol Microsoft Word, a all beri camgymeriadau os ydyn nhw wedi eu cwsmereiddio'n wael ar lefel drefniadaethol. Mae pethau eraill y dylech fod yn ymwybodol ohonyn nhw, er enghraifft, efallai nad yw'r arf sy'n gwirio "ffurfioldeb" fod yn briodol os mai cymuned leol yw eich cynulleidfa, ac os ydych yn ceisio defnyddio iaith llai ffurfiol, perthnasol.
- Mae rhai cyrff, yn enwedig wrth ymateb i ymgynghoriadau llywodraethol, yn teimlo bod angen iddyn nhw ddefnyddio iaith mwy technegol neu academaidd. Mae hyn yn iawn os mai swyddogion y llywodraeth yw eich cynulleidfa, ond os ydych yn dymuno i aelodau o'r cyhoedd ddarllen a deall yr hyn rydych wedi ei ddweud wrth y llywodraeth, darparwch grynodeb mewn Cymraeg clir neu bwyntiau allweddol ar gychwyn y ddogfen.

- Gellir profi cyfathrebiadau ysgrifenedig gyda'r cymunedau y maen nhw wedi eu hanelu atyn nhw cyn eu lansio, i sicrhau eu bod yn ddeniadol ac yn hawdd i'r gynulleidfa dan sylw eu darllen.

Cyfathrebu pell a chynadledda fideo

- Nododd aelodau nad oes dim yn well na chyfathrebu wyneb yn wyneb o ran creu ymddiriedaeth ac ymgysylltiad. Nid oes gan bob cymuned fynediad hafal i opsiynau cyfathrebu digidol.
- O ganlyniad i Covid-19 mae'n rhaid i gyrff gyfathrebu'n bennaf neu'n llwyr drwy gyfrwng fideo gynadledda ar hyn o bryd felly rhannwyd ambell i ganllaw o ran defnyddio llwyfannau fel Zoom a Teams.
- Cynghorodd Ele bod Zoom ar hyn o bryd yn well na Teams ar gyfer cysylltu gydag unigolion a chynrychiolwyr cymunedol nad ydyn nhw'n gweithio i gorff. Y rheswm am hyn yw bod angen tanysgrifiad Microsoft 365 (sy'n aml yn ddrud) ar Teams, ac efallai na fyddai unigolion yn gallu fforddio hyn. Fe all unrhyw un gyda mynediad i'r rhyngrwyd a dyfais ddefnyddio cyswllt Zoom.
- Mae gan Zoom hefyd opsiynau dehongli da ar gyfer gwahanol ieithoedd, yn cynnwys yr opsiwn i ddefnyddio dehonglydd Arwyddiaith Prydeinig (BSL). Mae arnoch angen pecyn busnes uwchraddedig i gael mynediad at y nodweddion hyn, ond mae Zoom yn caniatáu treialon am ddim a gallwch uwchraddio a thalu'n fisol, felly nid yw hyn o anghenraid yn golygu uwchraddio'n barhaol.
- Mae Teams ar fin rhyddhau swyddogaeth cyfieithu ar y pryd am ddim ac mae'n gwella ei gynnig hygyrchedd.
- Mae'n bwysig cofio nad ydy hyd yn oed galwad Zoom o anghenraid am ddim i'r defnyddiwr. Dylai cyrff ofyn a fyddai treuliau yn gymorth i dalu am ddefnydd data wrth wahodd rhai o'r gymuned i gymryd rhan drwy gyfrwng fideo gynadledda.

Adnoddau

Gwybodaeth ar gyfathrebu hygyrch gan Anabledd Dysgu Cymru (yn cael eu cymeradwyo'n arbennig gan Ele):

https://www.ldw.org.uk/resources/

Cyngor Llywodraeth y DU ar gyfathrebiadau hygyrch:

https://www.gov.uk/government/publications/inclusive-communication/accessible-communication-formats#:~:text=A%20minimum%20size%20of%2016,size%20is%20suitable%20for%20everyone.

W3C – gwefan ar gyfer y prif safonau hygyrchedd i'r wefan a ddefnyddir yn y DU a gwledydd ledled y byd:

https://www.w3.org/WAI/tips/designing/

Corff y DU dros Fformatau Hygyrch:

https://www.ukaaf.org/

Gwybodaeth a chyrsiau Saesneg clir:

http://www.plainenglish.co.uk/services/training/in-house-courses-available.html

Arweiniad Llywodraeth y DU ar iaith gynhwysol parthed anabledd:

https://www.gov.uk/government/publications/inclusive-communication/inclusive-language-words-to-use-and-avoid-when-writing-about-disability

Iaith yn Creu Realiti – cardiau defnyddiol o broject i helpu pobl i ddeall pwysigrwydd iaith wrth siarad am Syndrom Down:

https://www.languagecreatesreality.com/#main-header